PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 156 Rhif 1 Ionawr 5, 2023 50c.

ANERCHIAD COFIAWDWY CADEIRYDD NEWYDD

Dwyn i gof tri phennawd o bregeth gan y Parchg D. Rhys Thomas tua deugain mlynedd yn ôl wnaeth Rhiannon Mathias, Bryn Iwan yn ei hanerchiad wrth ddod i gadair Cyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin mewn Cwrdd Chwarter ym Mlaen-y-coed ar 24 Tachwedd.

Dyn heb Dduw yn anobeithiol,
Duw heb ddyn yn annigonol,
Duw â dyn yn anorchfygol.

'Mae'n heglwysi ni, ein cymunedau ni, ein gwlad a'r byd wedi newid cymaint ers i fi glywed y bregeth yna, yn enwedig yn ystod y pump neu chwe blynedd diwethaf,' meddai. 'Ond mae neges yr Efengyl yn aros yr un, a'n cyfrifoldeb ni Gristnogion yw ceisio cael y neges yna drosodd i bobl sydd heb glywed bron dim amdani heddiw.'

Afiechyd meddwl

Mynegodd Rhiannon ofid mawr am yr holl bobl sy'n dioddef o afiechyd meddwl. 'Pobl hŷn, canol oed, ieuenctid, plant yn eu harddegau a phlant cynradd hyd yn oed. Wedi canmol y we, allwn ni ofyn a yw'r dyfeisiau bach y maen nhw'n trin yn eu dwylo yn andwyol? Ydyw disgwyliadau byd addysg fod pob plentyn i gyrraedd yr un man ar yr un pryd yn andwyol? Ydyw'r pethau cas ar y teledu'n andwyol hefyd? Ac ydyw *delwedd* wedi mynd yn rhy bwysig i blant ifanc iawn?'

Peidio byth ag anobeithio

Wrth ganmol gwaith blaenllaw y Cyfundeb yn mynd i'r afael a materion sy'n effeithio ar ein bywydau ni heddiw, tynnodd Rhiannon Mathias sylw at ymateb un cyd-aelod i'r daflen *Beth i wneud pan fod eglwys yn cau?* Roedd yr aelod hwnnw wedi dweud 'Onid gweld cwpan hanner llawn y dylem, ac nid cwpan hanner gwag?' Er bod sefyllfa'r eglwysi wedi newid, ni ddylem fod yn negyddol, meddai. Mae wastad gobaith. Adroddodd stori wir am ferch yn ei harddegau 'nôl yn niwedd y 1940au, gafodd salwch blin iawn. Ofnwyd na fyddai'n tynnu trwyddi. Fe briododd yn 26 oed, ac ar achlysur dathlu ei phriodas aur, fe ddywedodd hi wrth Rhiannon iddi glywed fod rhywun wedi holi, 'Pam fod honna'n priodi? Fydd hi ddim byw'n hir.' Eto, buodd hi fyw am 68 mlynedd wedi iddi briodi.

Y Parchg Tom Evans, y cyn-gadeirydd, yn trosglwyddo Beibl y Cyfundeb i Rhiannon Mathias

Gwaith mawr y criw bach

Cyfeiriodd Rhiannon at erthygl am hanes y proffwyd Habacuc. Roedd trais, creulondeb, dioddefaint ac ofn yn gyffredin yn ei ddydd, ac roedd pobl yn holi cwestiynau am Dduw. 'Felly mae yng Nghymru heddiw. Ein hargyfwng mwyaf yw argyfwng ffydd – argyfwng credu, Dyn heb Dduw. Ond rhaid i ni gyd wneud rhywbeth bach i osgoi'r anobeithiol a'r annigonol, a cheisio hyrwyddo'r anorchfygol.' Cyfeiriodd at noson a gynhaliwyd yng nghapel Bryn Iwan i godi arian tuag Eisteddfod yr Urdd 2023 yn Sir Gâr. Criw bach fu wrthi'n trefnu, gan roi oriau o'u hamser, ac fe gafwyd noson lwyddiannus iawn. 'Pan wnes i ganmol y gwaith caled wrth un ohonynt, ei ateb oedd: "Mae'n rhaid i rywun weithio'n galed gyda phopeth cyn cael llwyddiant."'

Ar ôl cyfeirio at yr argyfwng hinsawdd, ac annog pawb i wneud ei ran, fe wnaeth Rhiannon Mathias gloi anerchiad cofiadwy trwy ddyfynnu'r geiriau hyn gan y Parchg W. Rhys Nicholas (CF 685):

Brwydra bob dydd, cryfha dy ffydd,
Crist yw dy nerth i gario'r dydd;
mentra di fyw a chei gan Dduw
goron llawenydd, gwerthfawr yw.

Derbyn Tair

Ar ail Sul yr Adfent cafodd cynulleidfa'r Tabernacl, Porthaethwy y wefr o dderbyn tair o'n pobl ifanc ni yn gyflawn aelodau o gymdeithas yr eglwys. Fel rhan o'r oedfa mi ddewisodd Alaw Haf, Nel, ac Alaw Glynne hoff emyn a hoff stori o'r Beibl. Cawsant dipyn o syrpreis hefyd wrth i'n gweinidog, y Parchg Ron Williams, ddangos lluniau ohonynt yn fabis. Embaras llwyr!

Rydym fel eglwys yn hynod falch o'r tair ac wedi'u gweld yn tyfu ac aeddfedu dros y blynyddoedd ac yn gwerthfawrogi'u cyfraniad i fywyd y Tabernacl o ddyddiau'r ysgol Sul hyd heddiw. Bydd y tair yn cymryd rhan yng ngwasanaeth yr aelodau yr wythnos nesa.

Cafwyd oedfa fendithiol dros ben a chyfle i bawb adnewyddu ein Cyfamod â'n Harglwydd. Wedi'r oedfa roedd sgwrs a phaned a mwynhau cwmnïaeth arbennig y Tabernacl ynghyd â'n cydaddolwyr o'r Capel Mawr.

Diolch i'n gweinidog am oedfa gofiadwy fel arfer ac am ei gymorth a'i arweiniad drwy'r flwyddyn.

Margaret Lloyd

Y Golofn Ryngwladol

O'r Unol Daleithiau y daw'r ddau sydd wedi cyfrannu i'n colofn y tro hwn, ac anfon cyfarchion atom ar gyfer y Flwyddyn Newydd.



Bu Tom a Wendy Van Tassell yn gweinidogaethu mewn eglwys Annibynnol yn Spencer, Iowa, cyn eu hymddeoliad. Yr oeddent yn uchel eu parch yno ac yn cynnal gweinidogaeth fywiog, amrywiol a gafaelgar. Pan ddaeth yn amser iddynt ymddeol, eu penderfyniad oedd symud i Michigan, ond y mae eu hymroddiad i waith y Deyrnas yr un mor wresog yno ag yr oedd yn Iowa.

Trwy Gymdeithas Annibynwyr y Byd y deuthum i'w hadnabod, ac o'r cyfarfyddiad cyntaf mae'r cyfeillgarwch wedi parhau er gwaethaf y pellter sydd rhyngom.

O ddiddordeb arbennig i Tom a Wendy mae'r bywyd defosiynol a gellir synhwyro hynny yn y darn hwn. Diolch i'r ddau ohonynt amdano, a boed bendith arnynt hwythau yn ystod dyddiau 2023.

Geraint Tudur

2023

O arfordir Llyn Michigan, yn nhalaith Michigan yn Unol Daleithiau America, yr ydym yn anfon ein dymuniadau gorau atoch ar gyfer y flwyddyn sy'n dod.

Cafwyd hysbyseb wleidyddol yn yr Unol Daleithiau rai blynyddoedd yn ôl, ac ynddi rhoddwyd sylw i Ruline Steininger oedd yn 103 mlwydd oed. Ganwyd hi saith mlynedd cyn bod merched yn cael pleidleisio, a bu fyw yn ddigon hir i weld gwraig yn ymgeisydd am yr Arlywyddiaeth ein gwlad. 'Yn ystod canrif gyntaf fy mywyd,' meddai, 'yr wyf wedi gweld llawer o bethau anghredadwy!' Awgryma'r modd y bu iddi ddweud hynny ei bod yn disgwyl byw am ganrif arall! Pan ofynnwyd iddi beth oedd ei hoedran, dywedodd, 'Yr wyf yn 103, tri mis a thri diwrnod. Yr wyf yn cyfrif pob un!'

Mae Salm 90 yn dweud mai gwibio heibio y mae ein dyddiau; 'ânt heibio yn fuan, ac ehedwn ymaith ... Felly, dysg i ni gyfrif ein dyddiau, inni gael calon ddoeth.'

Cyfrif ein dyddiau

Mae gan bob un ohonom un bywyd i'w fyw. Ar rai adegau, edrychwn ar ein sefyllfa. O bosibl ei fod yn digwydd wrth i ni symud o un flwyddyn i'r llall, neu yn ystod tymor yr hydref, mewn angladd cyfaill neu pan fyddwn yn darllen y geiriau hyn yn y bedwaredd bennod o ail lythyr Paul at Timotheus: 'Yr wyf wedi ymdrechu'r ymdrech lew, yr wyf wedi rhedeg yr yrfa i'r pen, yr wyf wedi cadw'r ffydd.'

Fel yr oedd Paul yn hunanwerthuso, felly ninnau. Mae gan bob un ohonom fywyd sy'n rhodd gan Dduw, ac mae hwnnw'n cynnwys doniau a thalentau, yn ogystal â gwendidau a ffaeleddau. Mae Duw yn bresennol gyda ni â digon o gariad a gras i'n cynnal trwy bopeth. Y cwestiwn inni ei ofyn i'n hunain yw, beth a wnawn â'r bywyd a roddwyd i ni? Sut mae ymateb i'r gofyn a wna Duw ar ein talentau, ein harian, ein hegni a'n brwdfrydedd?

Cân newydd

Geiriau a welir nifer o weithiau yn y Salmau yw 'canwch i'r Arglwydd gân newydd.' O bosibl, wrth i ni ystyried y flwyddyn a aeth heibio a'r flwyddyn sydd i ddod, y dylem ni ofyn i ni ein hunain:

- Pa gân yr wyf fi yn ei chanu â'm bywyd?
- Oes angen i mi ganu cân newydd?
- A wyf wedi methu taro'r nodyn cywir gyda'm bywyd, ac wedi bod allan o diwn? A yw gwrando arnaf wedi bod yn anodd i eraill?
- Gyda phwy yr wyf wedi bod yn 'canu', ac oes angen i mi newid hynny?
- Pwy sy'n fy helpu i ganu'n swynol (a byw yn dda)?
- A yw'r gân yr wyf yn ei chanu gyda'm bywyd yn fy helpu i sicrhau calon ddoeth?
- A wyf yn canu cân sy'n cofleidio bywyd mewn llawenydd?

Mae Duw yn bresennol gyda ni â digon o gariad a gras i'n cynnal trwy bopeth. Mae Duw yn bresennol gyda ni â digon o gariad a gras i'n cynnal! Canwn i'r Arglwydd!

Bydded i chwi, gyfeillion, wybod am bresenoldeb, cariad a gras Duw yn ystod 2023, a bydded ichwi gael calon ddoeth!

Tom a Wendy Van Tassell

Gweddi: Fy angen dyddiol am gwmni Ysbryd Cariad a Llawenydd.

Anwybyddais addewid fy Niddanydd,
Fy niod foreol sy'n ffrydio ffresni fy ffydd
ynghyd â'r bara beunyddiol bendithiol
sydd mor llesol ac angenrheidiol.

Ffolineb yw amddifadu fy enaid
o beidio yfed o ffiol adnewyddol llif dy ffynnon.
Diogela fi, Dad annwyl, rhag difrod difrifol fy malchder
wrth ddibrisio'r dyhead dwfn ynof
i geisio ac i garu dy gwmni
a minnau yn bodloni ar fodolaeth newynog
mewn cyflwr o wendid, tristwch a thlodi.
Cryfha a chyfoethoga fy mywyd
mewn ymwybyddiaeth fwy real
o werth maeth dy ysbrydoliaeth.
Deisyfaf, derbyniaf a diolchaf
am addewid dy ddiddanwch dyddiol.
Amen ac Amen.

Gwilym Wyn Roberts

Yr Adran Gydenwadol

IONAWR 5 2023 RHIF 97

Gweddi ar ddechrau blwyddyn newydd

Addasiad o eiriau 'Das alte Jahr vergangen ist'; Cantata gan Bach

Addolwn di, ein Harglwydd cu,
Wrth gefnu ar y flwyddyn fu;
Rhyfeddwn at dy gariad rhad
A'th faith amynedd, nefol Dad.

O Grist ein Harglwydd, Fab y Tad,
Dy Eglwys gwarchod ym mhob gwlad;
Rhag heriau a ddaw eto i'w rhan,
O nertha hi, nid yw ond gwan.

Na chymer d'Air cysurlon, byw,
O'n plith, gair gwaredigol yw;
Trig yn ein plith, a chadw ni
Rhag crwydro mhell o'th 'wyllys di.

Am i ni'th Ysbryd Glân dristáu
Rho nerth i fedru 'difarhau;
Na chadw cyfrif, Sanctaidd frawd,
O bob cam wnaethom drwy ein rhawd.

Â gwerthoedd glân, sanctaidd i Dduw,
Dymunwn farw, neu iti fyw;
Dy wasanaethu, nefol Ri,
A byw'n dragwyddol gyda thi.

Mewn cartref llon, â mawl di-lyth
Angylion nef, cawn foli byth;
Canmolwn di, ein ffydd cryfha,
Wrth fyw neu farw, Iesu da.

RWJ

Gellir canu'r geiriau ar dôn yr Hen Ganfed a gwrando ar ddehongliad o'r gwreiddiol ar https://www.youtube.com/watch?v=aQx36-Fyyr4

Llun: https://unsplash.com/photos/l4HBYkURqvE

Apêl am heddwch yn Wcráin

Ar 21 Rhagfyr 2022, daeth nifer o aelodau Cymdeithas y Cymod ynghyd yn y Bala i anfon llythyrau at bedwar gwladweinydd yn annog heddwch, cadoediad a chymod yn y gwrthdaro rhwng Wcráin a Rwsia. Roedd y llythyrau wedi eu cyfeirio at yr Arlywydd Zelenksyy a'r Arlywydd Putin yn annog y ddau arweinydd i drafod telerau cadoediad a chytundeb heddwch teg cyn gynted ag sy'n bosibl er mwyn yr henoed, y diamddiffyn a'r holl ddinasyddion a'r milwyr sydd wedi cael eu dal ynghanol y rhyfel erchyll yma.

Anfonwyd llythyrau hefyd at y Prif Weinidog Rishi Sunak a'r Prif Weinidog Mark Drakeford yn annog y ddau ohonynt i wneud popeth a fedrant i beidio hybu'r rhyfel ond i sicrhau cytundeb heddwch.

Arwyddwyd y llythyrau gan y Parch. Philip de la Haye, gweinidog wedi ymddeol sy'n byw yn y Bala, a ddywedodd 'Mae'r llythyrau'n tarddu o ddyhead dwfn am heddwch a chymod rhwng y ddwy genedl hyn.'

Mae Cymdeithas y Cymod ynghyd â mudiadau heddwch eraill yng Nghymru wedi mynegi eu pryder fod pwerdai niwclear ar y rheng flaen yn y gwrthdaro ac yn fygythiad ychwanegol difrifol.

Ychwanegodd Awel Irene, cydlynydd Cymdeithas y Cymod: 'Rhaid i'r Gorllewin gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd yn ymestyn, ac yn wir yn hybu'r rhyfel yma. Mae'n hen bryd i'r llywodraethau i gyd ddeffro i'r ffaith fod y mwyafrif llethol o bobl eisiau heddwch a chyd-ddeall rhwng cenhedloedd a'i gilydd.'

Mae Cymdeithas y Cymod yn rhan o fudiad heddwch rhyngwladol sy'n gwrthwynebu rhyfel a thrais. Mae'r aelodau'n credu mewn dulliau di-drais o ddatrys gwrthdaro a gweithio dros heddwch.

Mannau Cynnes

Yn anffodus, mae'r angen yn ein cymdeithas wedi cynyddu i'r fath raddau fel bod mannau cynnes wedi dod yn anghenraid i lawer ledled y wlad, gyda mannau cynnes yn ymddangos mewn llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol a hyd yn oed mewn amgueddfeydd. Ond mae cyfran fawr o'r rhain yn cael eu rhedeg gan eglwysi, ac mae llawer o'n heglwysi wedi teimlo'r alwad i weld sut y gallant ddefnyddio'u cyfleusterau i gyfrannu at ddiwallu'r angen mawr yma – gan gyfuno'r angen am gynhesrwydd sylfaenol â bwyd a chwmnïaeth.

'Fel llawer o eglwysi, rydym wedi ei chael yn her i weld sut allwn ni helpu pobl yn ein cymuned yn ystod y gaeaf hwn,' meddai Phil Hibbert, gweinidog Eglwys Bethel yn Llanilltud Fawr, Bro Morgannwg. Ers mis Gorffennaf mae'r eglwys wedi bod yn siarad â sefydliadau ac eglwysi yn y dref ynghylch sut y gallent gydlynu eu darpariaeth mewn ffordd sy'n cynnig man cynnes drwy gydol yr wythnos ond sy'n caniatáu i bob un fod â'i flas unigryw ei hun. Y canlyniad yw ymgyrch ar y cyd â brandio cyson iddo. Fel hyn, mae Bethel yn gwybod bod o leiaf bum lle cynnes ar gael ar hyd yr wythnos y gallan nhw gyfeirio pobl atyn nhw.

Mae'r eglwys ei hun wedi sefydlu'r hyn y mae'n ei alw'n 'Warm Wednesdays', sy'n cael eu cynnal yn syth ar ôl ysgol a hefyd pan fydd y banc bwyd (sy'n cael ei gynnal ym Methel) yn gorffen. 'Mae man cynnes yn cynnig yn union hynny,' eglura Phil, 'sef amgylchedd hamddenol a chynnes.' Rhwng 3:15pm a 5pm mae yno ddiodydd poeth, byrbrydau, teganau ac ardal lle gellir gwneud gwaith cartref. Dywed Phil eu bod wedi ceisio bod mor agored â phosib o ran yr hyn maent yn ei gynnig, 'oherwydd ein bod am i'r rhai sy'n mynychu ddweud wrthym beth sydd ei angen arnynt, yn hytrach nag i ni gymryd hynny'n ganiataol'.

Mae rhai eglwysi wedi penderfynu manteisio ar y cyfle i ganolbwyntio'u darpariaeth ar rannu prydau bwyd, fel Capel Pentref, Bontnewydd-ar-Wy yng nghanolbarth Cymru. Maen nhw am gynnig 'lle croesawgar cynnes i unrhyw un fyddai'n mwynhau ychydig o gwmni dros bryd o fwyd bob mis – does dim angen cysylltiad â chapel. Mae rhai ohonom sy'n aml yn bwyta ar ein pennau ein hunain yn gwerthfawrogi sgwrs bob nawr ac yn y man!' Y tro diwethaf, fe ddaeth tua 25 o bobl i neuadd y capel ac 'roedd y bwrlwm yn yr ystafell yn hyfryd wrth i'r *slow cookers* wagio'n raddol, a chafwyd hyd i ambell frathiad o bwdin hefyd'.

Yn yr un modd, yn Aberteifi, mae aelodau Eglwys Fedyddiedig Mount Zion wedi agor eu hadeilad bob dydd Mawrth o 3:30 tan 9pm, gyda phryd o fwyd dau gwrs yn ffurfio canolbwynt i'r cyfnod hwn – boed yn gawl a chrymbl neu daten bob â browni i bwdin.

Ac yng Nghaernarfon, mae Eglwys Caersalem bellach yn cynnal sesiwn 'Cawl a Chwmni' dros amser cinio estynedig bob dydd Iau. Fel mae Rhys Llwyd, bugail yr eglwys, yn esbonio: 'Os ydan ni fel cymuned eglwysig yn mynd i wario arian ar redeg adeilad, yna mae angen i ni ei ddefnyddio i wasanaethu pobl. Beth mae'n ei olygu i ddangos cariad Cristnogol yn y tymor hwn os nad drwy wneud rhywbeth fel hyn?'

Mewn sawl un o'r cyd-destunau hyn, un thema gyffredin sy'n dod i'r amlwg yw fod y cyfle i bobl gael cwmni eraill yr un mor bwysig â'r cynhesrwydd ei hun. Ym Mount Zion ar nos Fawrth oerllyd mae 'na fwrlwm wrth i fwyd gael ei baratoi a'i weini i grŵp o ryw ugain o bobl. Mae Eirian, un o nifer o wirfoddolwyr tu ôl i'r fenter, yn esbonio fod hon wedi bod yn ffordd mor dda iddynt ddod i adnabod pobl: 'Ry'n ni'n disgwyl cario hyn ymlaen yn dda i'r flwyddyn newydd. Mae'n fater o garu ein cymydog, on'd yw e – yn union fel mae Iesu'n ei orchymyn.'

Un Funud Fach …

'Mae tymor i bob peth, ac amser i bob gorchwyl dan y nef' (Llyfr y Pregethwr 3:1)

Tic-toc, mae'r cloc wedi taro deuddeg.

Blwyddyn newydd dda i chi i gyd! Mae 2023 wedi cyrraedd. Anodd credu, efallai. Mae amser yn hedfan.

Tybed beth sydd yn ein disgwyl dros y deuddeg mis nesaf? Ar gyfer ein heglwysi. Ar gyfer ein cenedl. Ar gyfer ein byd. Does neb yn gwybod, ond Duw. Y cyfan y gallwn ei wneud yw gobeithio a gweddïo bod 2023 yn mynd i fod yn flwyddyn dda, bod 2023 yn mynd i fod yn flwyddyn llawn iechyd, llawenydd a heddwch.

Ie, tybed beth sydd i ddod? Dyna'r peth am flwyddyn newydd sbon. Mae'n dudalen wag – llechen lân. Mae'r dyfodol allan yna o'n blaenau, yn anhysbys ac yn barod i agor i fyny.

Fel gweinidog gweddol newydd i'r swydd, mae trefnu amser wedi bod yn heriol, a'r ymdeimlad bod angen llenwi pob munud o bob dydd i gyfiawnhau fy hunan.

Cyn bod yn weinidog, roeddwn yn gweithio mewn ysgol gynradd fel cynorthwywraig. Ac er bod ambell beth yn codi yn yr ysgol, ar y cyfan roedd strwythur gweddol benodol i'r diwrnod, ac i'r flwyddyn. Ac roedd sicrwydd yn hynny; roedd y sicrwydd yn fan diogel. O achos y strwythur yna, roedd e'n rhwydd ymddiried yn Nuw achos fy mod yn gwybod beth oedd yn fy nisgwyl wrth gamu i mewn drwy ddrws yr ysgol bob dydd.

Pan ddaeth galwad Duw ar fy nghalon fod angen i fi fentro ar rywbeth gwahanol, fe aeth y sicrwydd hwnnw allan drwy'r ffenest. Dechreuodd cyfnod hollol wahanol yn fy mywyd. A'r cwestiwn ddaeth, nid yn unig wrtha i ond oddi wrth eraill hefyd, 'A wyt ti'n gwneud y peth iawn?'

Fe wnes i droi at Dduw am yr ateb, i weld a oeddwn wedi dirnad ei alwad yn gywir. Dyma'r ateb a gefais wrth eistedd, credwch neu beidio, mewn angladd a gwrando ar ddarlleniad adnabyddus iawn. Geiriau enwog allan o Lyfr y Pregethwr: bod **amser i bob gorchwyl dan y nef**.

Dros y flwyddyn a hanner ddiwethaf mae ambell beth wedi digwydd sydd wedi profi'r geiriau yma'n gywir. Rydw i wedi bod yn y man a'r lle cywir pan oedd angen. Hefyd, mae adegau lle cefais fy rhwystro, a methu cyrraedd fy nghyrchfan ac o ganlyniad roedd y sefyllfa gymaint â hynny'n well. A does dim amheuaeth gyda fi nad oedd llaw Duw yn yr amseroedd hynny.

Dros y misoedd nesaf, wrth i'r flwyddyn newydd agor o'n blaenau, ceisiwn gofio geiriau'r Brenin Solomon: bod yna amser i dyfu, amser i chwerthin, amser i wylo ac amser i chwalu.

Does gen i ddim amheuaeth nad yw'r geiriau yma, y rhestr hir sydd ym mhennod 3 o'r llyfr, yn gofyn i ni fentro, sylweddoli bod yna siawns, wrth i ni geisio pethau newydd, efallai byddwn ni'n methu. Bod pethau negyddol a phositif yn mynd law yn llaw.

Felly eleni, dros y flwyddyn newydd hon, cofiwn eiriau bardd enwog ardal y Preselau, Waldo Williams:

Un funud fach cyn elo'r haul o'r wybren.

Achos drwy ymddiried yn Nuw mae pob munud yn cyfri. Mae'n rhaid mentro a bod yn barod i fethu, achos wrth fethu byddwn ni wedyn yn gwybod beth yw llwyddiant.

Sian Elin Thomas

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
Sul, 8 Ionawr, am 7.30yh
Bydd Ryland ar daith sy'n datgelu hanes cudd rhai o addoldai cyfareddol sir Faesyfed yng nghwmni Aled Morgan Hughes, a chawn fwynhau perfformiad hyfryd gan Siân James

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
Sul, 8 Ionawr, am 7:30yb a 4:30yp
R. Alun Evans fydd yn cyflwyno'r drydedd raglen mewn cyfres sy'n trafod gwahanol themâu. Heddiw, y cof a chofio yw'r thema

Sul, 8 Ionawr, am 12:00yp
Oedfa ar weddi dan arweiniad Anna Huws, y Bala a Chanolfan Ffald-y-brenin

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru
(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

Rhyngom â'n gilydd

Ddechrau Medi ymgasglodd rhai miloedd o Gristnogion yn ninas Karlsruhe ar lannau afon Rhein yn ne-orllewin yr Almaen i unfed cymanfa ar ddeg Cyngor Eglwysi'r Byd, yn eu plith gwmni o Gymry unfryd eu tystiolaeth i werth y gynhadledd arbennig hon a'r bendithion a gafwyd trwyddi.

Yn ei hanerchiad a draddodwyd yn ddigon agos at ddechrau'r gynhadledd i osod tempo a chyweirnod i'r gweithgareddau, llwyddodd y Llywydd, Dr Agnes Abuom, Anglicaniad o Nairobi, Kenya, y wraig a'r Affricaniad cyntaf i ddal y swydd, i chwalu unrhyw ofnau allai fodoli

ym meddwl unrhyw un a amheuai werth ei siwrne i dir mawr Ewrop i'r cyfarfodydd hyn trwy iddi hoelio'n sylw ar bedwar rheswm digonol i seilio'n bwriadau, ein dyheadau a'n disgwyliadau gydol y cynulliad.

4 pwynt sylfaenol

Gan fod y rhain yn berthnasol i unrhyw sefyllfa lle daw pobl Dduw ynghyd mae'n werth eu nodi yma gydag anogaeth i'w cofio ar ambell fore Sul neu ar drothwy cwrdd chwarter neu gynhadledd. Meddai Dr Agnes, daethom ynghyd:

1. am ein bod ni'n ddisgyblion i Iesu o Nasareth, y Crist a gyhoeddodd newyddion da i'r tlodion. Fel ei ddisgyblion credwn yn gryf fod ei dosturi i'w wireddu a'i gyhoeddi mewn byd sy'n gynyddol amlygu ei unigoliaeth a'i ddifaterwch tuag at y bregus, boed bobl, neu fywyd y greadigaeth yn ei chyfanrwydd. Bradycha sefyllfa'r tlawd a'r diamddiffyn y diffyg gofal enbyd sydd gennym dros ein gilydd a'n methiant truenus i garu cymydog yn unol â gorchymyn Iesu. Sefyllfa sy'n alwad frys arnom i gyhoeddi a hyrwyddo cyfiawnder, heddwch, cymod ac undod. Mewn byd sy'n ddibris o fywyd gweithred wrth-ddiwylliannol yw dilyn Iesu, gweithred sy'n cael ei hysgogi, ei hysbrydoli a'i chadarnhau pan ddown ynghyd i gwmni'n gilydd.
2. am ein bod yn aelodau o gymundebau amrywiol y teulu Cristnogol sydd heb fod eto mewn cymundeb llawn â'i gilydd. Os nad ydym mewn cymundeb llawn fel eglwysi allwn ni ddim dwyn tystiolaeth glir i'r addewidion Beiblaidd ynghylch Teyrnas Dduw: diwedd poen, dyfodiad heddwch, a'r cymod a'r undod sydd i bopeth yn yr Un orchfygodd holl bwerau dinistr a marwolaeth. Rhaid inni edifarhau ac amlygu ar draws y gwledydd, ac yng ngrym yr Ysbryd, fywyd a gwaith yr un Eglwys, lân, gatholig ac apostolaidd a gyffesir gennym yn gyffredinol.
3. am ein bod yn credu bod pobl, waeth beth fo'u rhyw a lliw eu croen, wedi eu creu ar ddelw Duw a chanddynt werth ac urddas cyfartal. Credwn fod y Crist a ddilynwn, nid yn unig yn ben ar yr eglwys ond yn ben ar y greadigaeth newydd yn ogystal. Am hynny, credwn i ni gael ein galw i weithio law yn llaw â phobl ffydd sy'n perthyn i grefyddau eraill ynghyd â phobl ddiffydd sy'n gwbl ymroddedig i wleidydda tosturiol, radical fyn osod terfyn ar ryfel a gwrthdaro a hyrwyddo cyfiawnder a thegwch fydd yn sail i economïau fydd yn gwarchod y greadigaeth a lles ac iechyd cenedlaethau'r dyfodol.
4. er mwyn cyflawni gwaith a busnes Cyngor Eglwysi'r Byd: i feddwl a myfyrio, ac i werthuso'n galwad a'n gwaith ers y gymanfa ddiwethaf yn Busan. Trwy weddi, astudiaeth

parhad ar y dudalen nesaf

Nadolig 2022

Darllenwyd y gerdd hon o waith Arwel John – un o aelodau Caersalem, Pontyberem – gan ei briod Meinir John yn yr Oedfa Naw llith a Charol fore Sul 18 Rhagfyr.

Rwyt ti, y Nadolig
Mor barod dy wên,
Rwyt ti'n dal mor ifanc
Os wyt ti yn hen.

Dy seren fawr ddisglair
A ddaw fel erioed,
Dy ddoethion sy'n aros
Er cymaint eu hoed.

Eu rhoddion i'r Iesu
Mor newydd a gwych,
Wrth dalu gwrogaeth
Yn llety yr ŷch.

Daw bugail blinedig
A'r praidd eto 'nôl,
Gan groesi'r canrifoedd
Dros fynydd a dôl.

Bydd Joseff yn sefyll
Wrth erchwyn y crud,
A Mair 'nôl yn gwarchod
Gwaredwr y byd.

Ac yma 'Nghaersalem
Mor gyson wyt Ti,
Mi fyddi di yma
Fel arfer i ni.

Daeth Gabriel i oedi
Sawl canwaith o'r nef
A'r golau'n llewyrchu
Dros Fethlehem dref.

Eleni, fel arfer,
Fe ddôi di i'n clyw,
I ddatgan drwy'r gwledydd
Gogoniant i Dduw.

Gan hynny diolchwn
Drwy'r miri a'r hwyl,
I ti a roes inni
Dangnefedd yr Ŵyl.

Arwel John

Barn Annibynnol

Blwyddyn Newydd Dda!

Gawsoch chi amser braf dros y Nadolig a'r Calan? Cyfle i ddarllen efallai?

Dros y misoedd diwethaf rwy wedi darllen pum nofel Gymraeg ddiweddar sy'n ymwneud i ryw raddau â chrefydd yng Nghymru. 'Calonogol,' meddech chi? 'Mae'n capeli ni'n berthnasol wedi'r cyfan.' Ond na, sôn am arweinwyr crefyddol a pharchusion yn cam-drin pobl ifanc y mae pedair o'r pump!

O Glust i Glust



Yn *O Glust i Glust* gan Llwyd Owen, Y Lolfa, 2022, mae 'na lofruddiaeth yn y sêt fawr! Dial am gamdriniaeth a ddigwyddodd 30 mlynedd ynghynt mae'r llofrudd – a'r camdriniwr erbyn hyn wedi cael tröedigaeth ac yn hen ŵr. Yn ôl ei weinidog, 'Roedd Peter yn benderfynol o newid. O gladdu'r gorffennol. O fod yn berson gwell. A gwnaeth e hynny trwy dderbyn Iesu i'w fywyd.' Ond nid yw pawb, yn cynnwys y llofrudd, yn barod i dderbyn hynny, 'Nid hen ddyn ffeind yw hwn. O, na. Dyma'r Diafol mewn trowsus melfaréd. Creadur bwystfilaidd yn gwisgo cardigan.'

Hannah-Jane

Aeth cryn amser heibio ers y cam-drin yn *Hannah-Jane* gan Lleucu Roberts, Y Lolfa, 2021, hefyd. Mae Hannah-Jane yn hen wraig anghofus a fagodd ei merch, Susan, ar ei phen ei hun heb ddweud wrthi erioed pwy oedd ei thad. Daw i'r amlwg mai 'hen foi capal' a'i treisiodd ar ôl ei gwahodd i'w dŷ i geisio cyngor am lanhau'r popty. Mae hwnnw wedyn yn gwadu pob cyfrifoldeb gan ysgrifennu ati, '... mae'n peri tristwch enbyd i mi eich bod, drwy ba ddryswch meddwl bynnag, yn credu bod unrhyw beth wedi digwydd rhyngom ni ein dau erioed ... ac rwy'n difrif obeithio y daw goleuni Duw i glirio'r fath ddychymyg cyfeiliornus o'ch meddwl a llenwi eich calon â'i ras.'

Hela

Mae tad yn gwrthod arddel ei blant yn *Hela*, Aled Hughes, Y Lolfa, 2021 hefyd. Ac mae gan *Hela* a *Bedydd Tân,* Dyfed Edwards, Gwasg y Bwthyn, 2021, dipyn yn gyffredin – fel llofruddiaeth, heddlu llwgr, cylch o barchusion sy'n denu merched ifanc i'w cam-drin yn rhywiol, a mwy.

Ond mae yna wahaniaethau hefyd – ymdrin â rhyw fath o gwlt mae *Bedydd Tân*. Cwlt a arweinir gan y Gŵr Traws, 'Meddwyn, bwrlas, gweinidog yr Efengyl, Satan ei hun: megis mellten yn syrthio o'r nef.' Mae'r nofel yn llawn dyfyniadau bygythiol o'r Beibl, yr Hen Destament gan fwyaf, cyfieithiad William Morgan wrth gwrs, fel, 'Fy nghleisiau a bydrasant ac a lygrasant, gan fy ynfydrwydd,' llawer ohonynt yn hollol ddierth i mi. A lle mae tipyn o ysgafnder, teyrngarwch a gobaith yn perthyn i *Hela*, 'tywyll' yw'r gair a glywais amlaf i ddisgrifio *Bedydd Tân* – ond mae'n chwip o nofel!



Wrth sôn am ei nofel *A History of Loneliness,* Doubleday, 2014, sydd wedi'i seilio ar brofiad personol o gamdriniaeth gan offeiriaid Catholig yn Iwerddon, dywed John Boyne, 'It would be very easy to write a novel with a monster at the centre of it, an unremitting paedophile who preys on the vulnerable without remorse.'

Bwystfilod

Efallai bod rhai o gymeriadau'r nofelau hyn yn ormod o fwystfilod. Rwy wedi clywed Lleucu Roberts yn siarad am *Hannah-Jane* gan ddweud ei bod yn difaru gwneud y treisiwr yn flaenor gan alw hynny'n 'stereoteip treuliedig'. Cawn ein cyflwyno i'r Parchedig John Parry ar dudalen 6 o *Hela* fel 'y basdad mwya ohonyn nhw' a dyna ni wedyn, mae'n ddyn drwg hollol un dimensiwn, yn 'teimlo dim'. Byddai'r nofel gymaint yn fwy diddorol pe bai rhywfaint o densiwn yn ei gymeriad, rhyw gymhlethdod neu euogrwydd, neu pe bai ganddo ryw rinwedd. Does dim ymdrech chwaith i esbonio beth sydd wedi'i wneud yn ddihiryn mor ddiedifar.

Rwy'n cael y teimlad bod rhai o'r awduron hyn yn *meddwl* eu bod nhw'n deall bywyd capel achos bod e'n rhywbeth sy wastad wedi bod yn y cefndir ond ei fod yn ddierth iddyn nhw mewn gwirionedd. Yn *O Glust i Glust*, mae'r llofruddiaeth yn digwydd mewn capel lle mae 'na fedyddfaen a cherflun pren o'r Iesu wedi'i groeshoelio ac, er mai lle i 50 sydd yn y capel, mae 'na festri a swyddfa lle mae'r gweinidog yn gweithio – gweinidog sy'n dweud pethau fel 'Darganfu Mr James yr Iôr yn hwyr yn ei fywyd'! Ddim yn amhosib, ond ... Yn *Hela*, sonnir am y gweinidog yn 'dod i lawr ... i weld y plwyfolion' ac yn *Hannah-Jane*, sonnir am y treisiwr fel 'ryw foi parchus yn capel Annibyns' ac yna fel 'pen blaenor'. Hollti blew? Ddim yn ôl fy ngŵr i!

Yn fyw yn y cof

Y bumed nofel a ddarllenais oedd *Yn Fyw yn y Cof*, John Roberts, Y Lolfa, 2021. Mae yma rai elfennau eitha ystrydebol yn ei bortread o'r gweinidog, yn sôn am 'ddiffyg disgyblaeth pobl ifanc ein hoes' ac ati, ac mae'n defnyddio 'dull y salm' wrth ledio'r emynau, ond rhai sylwadau craff hefyd. Mae Iorwerth yn synnu clywed Greta'n sôn am 'gyfnod efengylaidd' ei mam gan feddwl ei bod hi'n dal yn efengylaidd. Mae ymateb Greta'n ddiddorol, 'I chi sy ddim yn efengylaidd mae hi'n ymddangos felly. Ond i efengylwyr pur, mae 'na amheuon yn ei chylch!' Profiad i amryw, mae'n debyg!

Felly, ar y cyfan, portread digon negyddol o grefyddwyr/capelwyr sydd yn y nofelau hyn mewn dyddiau pan nad yw crefydd yn berthnasol iawn i drwch y boblogaeth. Pam? Cenhadaeth, efallai, yn achos Dyfed Edwards sy'n anffyddiwr o argyhoeddiad ond, fel arall, awydd i siocio? Diogi? Eisiau tanseilio'r sefydliad? Darllenwch nhw i chi gael penderfynu!

Siân Roberts

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

Rhyngom â'n gilydd – *parhad*

Feiblaidd, dadansoddi materion cyfoes, myfyrdodau, a thrafodaethau y gwna'r gymanfa hynny a darparu arweiniad ar waith, tystiolaeth, a safle strategol Cyngor Eglwysi'r Byd i'r dyfodol.

'A gytunwch â mi?' holodd y Llywydd, a chyn i neb ei hateb, heb sôn am anghytuno â hi, bwriodd ymlaen i'n hannog i'w cadw mewn cof yn gyson a phrofwyd doethineb ei harweiniad a grym ei hanogaeth droeon dros ddiwrnodau'r gymanfa. 'Cofiwch,' meddai, 'y mae'r gymanfa hon dipyn mwy nag uchaf lys Cyngor Eglwysi'r Byd a'r cynulliad mwyaf cynrychioliadol o Gristnogion y byd. Ar ei orau, dathliad ysbrydol o rym cariad Duw i adnewyddu ein meddyliau a'n calonnau yw'r gymanfa, fel y gallwn ddod yn rym gwrth-ddiwylliannol, di-ildio'n penderfyniad i sefyll gyda phobl sy'n agored i niwed a chyda creadigaeth Duw.'

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan, Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: **02920 490582**
E-bost: **aluntudur@btinternet.com**

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel, Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UE
Ffôn: **01766 513138**
E-bost: **IwanLlew@aol.com**

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: **01267 232577 / 0781 751 9039**
E-bost: **alunlenny@hotmail.co.uk**

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: **01792 795888**
E-bost: **undeb@annibynwyr.cymru**

Dalier Sylw!
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Dathlu'r Nadolig yn Nebo a Saron

Ar Sul Rhagfyr 18 cynhaliwyd oedfaon carolau Saron Creunant a Nebo Felindre. Braf oedd gweld cynulleidfaoedd arbennig o dda yn y ddwy oedfa, clywed canu swynol a darganfod brawdoliaeth hynod o gyfoethog. Wedi'r ddwy oedfa, cafwyd mins peis a gwin poeth. Diolch i bawb am bob cefnogaeth.

Ar Sadwrn 3 Rhagfyr daeth dros gant o bobl a'u plant i weld Siôn Corn yn Saron Creunant ac i weld ein stabl tu allan i'r capel. Roedd cyfle i fwynhau disgled a theisen. Codwyd dros £520 i'r achos. Roedd yn fore i'w gofio!

William Rhys Locke

Capel Glynarthen, Ceredigion

Cynhaliwyd yr Oedfa Nadolig cyntaf ers y pandemig ar Sul 18 Rhagfyr, 2022 yng nghapel Glynarthen. Hyfryd oedd cael gweld ein gilydd eto a hyfrytach fyth oedd gwasanaeth plant yr ysgol Sul (rhai ohonynt yn fabanod ddaeth i'r byd adeg y pandemig a'r cyfnod clo) a'r bobl ifanc hyfryd eu cael yn ôl yn mwynhau cymryd rhan mewn oedfa. Wedi'r oedfa croesawyd pawb i'r festri i gynhesu a derbyn o groeso gwragedd Glynarthen ar Sul oeraf y flwyddyn, gyda'r ffyrdd yn beryglus oherwydd rhew a phroblemau gyda dŵr yng Ngheredigion. Bendithion Gwŷl y Geni i holl ddarllenwyr *Y Tyst*.

Carys Ann

Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.